

## Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

15 Gorffennaf 2020  
 via Zoom

Nodyn

<b>CSCC</b>	Nicola Britton, Swyddfa CSCC
John Lloyd Jones, Cadeirydd	Adrian Davies, Swyddfa CSCC
Tom Crick, Comisiynydd	John Howells, Cyfarwyddwr
Rob Irvine, Comisiynydd	Newid Hinsawdd, Ynni a
Eluned Parrott, Comisiynydd	Chynllunio, Llywodraeth Cymru
Rod Smith, Comisiynydd	<b>Ymddiheuriadau</b>
Chris Sutton, Comisiynydd	Stephen Gifford, Comisiynydd
Emma Thomas, Comisiynydd	Richard Feasey, Comisiynydd
Ceri Doyle, Comisiynydd	Tom Wharf, Comisiynydd
Helen Howells, Comisiynydd	

1. Tynnodd y Cadeirydd sylw at lythyr yr oedd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai wedi'i anfon at awdurdodau lleol ynghylch Cynllunio ac Adfer ar ôl Covid 19.
2. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau ar gynllun gwaith drafft ar gyfer 2020-2021. Yn ystod y drafodaeth ar y cynllun gwaith, nodwyd y duedd tuag at ddatblygu rhanbarthol/cynllunio seilwaith fel ardal y mae'r CSCC am ymgysylltu â Llywodraeth Cymru arni. Cytunwyd i ofyn am nodyn briffio ar weithgarwch cyfredol Llywodraeth Cymru o ran CJs (Bil Llywodraeth Leol) a'r gronfa ffyniant a rennir.
3. Trafododd y Comisiynwyr manylion ymarferol ynglyn â chynhyrchu eu hadroddiad blynyddol yn 2020.
4. Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r tri maes pwnc allweddol a nodwyd yn adroddiad blynyddol 2019;
  - Cyfathrebu Digidol: Mae'r ffocws ar brynu dadansoddiadau ychwanegol.

- Trafnidiaeth:
  - i. Nododd y Comisiynwyr y byddai Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad interim cyn bo hir. Hefyd bydd Ymgynghoriad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref, gyda chyfarfod gyda'r tîm WTS wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi
  - ii. Er eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa bresennol (C19), roedd Comisiynwyr yn teimlo y dylent barhau i ganolbwyntio ar seilwaith trafndiaeth canol i hirdymor.
- Ynni: Nodwyd cymhlethdod y sector. Fodd bynnag, ystyriwyd bod sylfaen dystiolaeth gadarn yn flaenoriaeth. Cytunwyd y byddai angen adnoddau ychwanegol i gwblhau gwaith yn y maes hwn.

## 5. Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Medi

Camau i'w cymryd:

*Gofyn i Lywodraeth Cymru am nodyn briffio ar weithio rhanbarthol: Swyddfa CSCC.*

*NB Gorffennaf 2020.*